

# Canllaw i bobl ifanc ar ARIAN...



[www.newport.gov.uk](http://www.newport.gov.uk)

Bydd y canllaw hwn yn rhoi **cyngor**  
a **gwybodaeth** ar gynilo a chyllidebu  
eich arian.



**NEWPORT**  
CITY COUNCIL  
CYNGOR DINAS  
**CASNEWYDD**

## CANLLAW AR ARIAN I BOBL IFANC...

Bydd y canllaw hwn yn rhoi CYNGOR a GWYBODAETH i chi am bob peth sy'n ymwneud ag arian gan gynnwys:

- **Cynilo arian**
- **Cyllidebu eich arian**
- **Dod mo hyd i ffynonellau ychwanegol**
- **Cadw arian, eiddo a chi eich hun yn ddiogel**



## HELP GYDAG ARIAN...

Mae gwahanol ffyrdd y gallwch gynilo neu gael arian yn dibynnu ar ba mor gyflym y mae angen i chi gael gafael arno.

## MANTEISION...

Boed yn gweithio neu beidio, efallai y gallwch hawlio rhai budd-daliadau. Gallwch hefyd siarad â'ch canolfan cyngor ar bopeth leol neu hyfforddwr gwaith eich canolfan waith i gael cyngor.

## CYFLOGAETH...

Os ydych yn gweithio ac angen mwy o arian arnoch, gallech ofyn a oes gorams-er ar gael.

Mae'r Canllaw i Bobl Ifanc ar Gyflogaeth hefyd yn rhoi gwybodaeth a chyngor ar gael arian ychwanegol pan fyddwch yn gweithio.

## GRANTIAU...

Mae grant yn arian a gewch i'ch helpu i dalu am eitem benodol ac nid oes rhaid i chi ei ad-dalu.

Yn dibynnu ar eich incwm presennol (o fudd-daliadau neu swydd) efallai y gal-lech gael grant i'ch helpu.

Gall y rhain fod ar gyfer nifer o wahanol bethau gan gynnwys:

- **help os oes gennych chi blentyn**
- **tuag at gostau ynni**
- **tuag at eitemau hanfodol**
- **hyfforddiant neu gyflogaeth**



## ISA I BOBL IAU...

Os ydych wedi bod yn derbyn gofal ers dros 12 mis bydd yr awdurdod lleol wedi sefydlu ISA i Bobl Iau ar eich rhan. Gallwch gael yr arian hwn os oes ei angen arnoch unwaith y byddwch yn troi'n 18 oed.

Os nad oes ei angen arnoch yn 18 oed, mae'n syniad da parhau i gynilo'r arian nes bod ei angen arnoch.

## GWERTHU EITEMAU...

Os oes gennych rai pethau nad ydych yn eu defnyddio mwyach, fel dillad neu gemau cyfrifiadurol, ceisiwch eu gwerthu i godi rhywfaint o arian. Mae'r lleoedd y gallwch roi cynnig ar werthu eitemau yn cynnwys:

- **eBay**
- **Facebook- buy/sell groups**
- **Shpock**
- **Storfa gyfnewid gemau cyfrifiadurol leol**

## MATHAU O GYNILON...

### **Cynilon mynediad hawdd**

Fel y mae'r enw'n awgrymu, mae'r math hwn o gyfrif cynilo yn golygu y gallwch gael eich arian yn gyflym a heb gosbau.

Mae'n hawdd sefydlu'r cyfrifon hyn ac fel arfer gallwch roi cymaint neu gyn lleied ag y dymunwch bob wythnos/mis. Fel arfer, gallwch dynnu arian mor aml ag y dymunwch drwy gydol y flwyddyn.

Mae'r llog a enillwch yn debygol o fod yn llai na mathau eraill o gynilon.

### **Cymorth i gynilo**

Mae Help to Save yn fath o gyfrif cynilo Mae'n caniatáu i rai pobl sydd â hawl i gael credyd treth gwaith, neu gredyd cynhwysol gael bonws o 50c am bob £1 y maent yn ei gynilo dros gyfnod o bedair blynedd.

Cefnogir cymorth i gynilo gan y llywodraeth sy'n golygu bod yr holl arbedion yn y cynllun yn ddiogel.

Os ydych yn cael credyd cynhwysol gallwch ddefnyddio help to save.

Gallwch gynilo rhwng £1 a £50 y mis a chael bonws ar ddiwedd yr ail a'r bedwaredd flwyddyn. Mae'r bonws hwn werth 50c am bob £1 a gynilwch (gan dybio nad ydych yn tynnu arian allan o'r cyfrif) sy'n llawer uwch nag unrhyw log a gewch wrth gynilo gyda banc.

I wneud cais ewch i [www.gov.uk/get-help-savings-low-income](http://www.gov.uk/get-help-savings-low-income)

### **Oeddech chi'n gwybod?**

Gallwch agor cyfrif cynilo gydag unrhyw fanc - nid dim ond yr un lle mae eich cyfrif cyfredol. Gwnewch yn siŵr eich bod yn chwilio ac yn cymharu i gael yr un gorau.

### **Cynilon mynediad cyfyngedig**

Ar gyfer y math hwn o arbedion, dim ond ychydig o weithiau bob blwyddyn y cewch dynnu arian allan. Gall hyn fod rhwng un a phedair gwaith y flwyddyn.

Bydd y banc yn gostwng y gyfradd log os bydd yn rhaid ichi dynnu arian allan yn amlach.

### **Cynilo cyson**

Cyfrif cynilo yw hwn lle mae'n rhaid i chi dalu swm penodol i mewn bob mis - fel arfer rhwng £25 a £250 y mis. Gall y gyfradd log fod yn sefydlog am flwyddyn sy'n golygu y gallai fod yn llawer is ar ôl 12 mis.

Efallai y bydd rhai cyfrifon yn eich cosbi am dynnu arian allan.

## **FFYRDD ERAILL O GYNILO...**

Gyda newidiadau technolegol daw ffyrdd newydd o gynilo. Dyma rai enghreifftiau o sut i gynilo gyda a heb dechnoleg.



[www.newport.gov.uk](http://www.newport.gov.uk)

## Her cynilo Igeiniog

Bob dydd rydych chi'n cynilo faint y cyniloch chi'r diwrnod cynt, a cheiniog yn ychwanegol.

Os dechreuwch ar 1 Ionawr, erbyn 31 Rhagfyr byddwch wedi cynilo dros £600. Am fwy o wybodaeth ewch i [www.moneysavingexpert.com/team-blog/2019/12/the-1p-365-day-savings-challenge](http://www.moneysavingexpert.com/team-blog/2019/12/the-1p-365-day-savings-challenge)

## Cynilo'r newid

Mae nifer o fanciau bellach yn cynnig y cynllun hwn. Pan dalwch gyda cherdyn, bydd y banc yn talgrynnu'r swm i'r bunt agosaf a chaiff y gwahaniaeth ei ychwanegu at eich cyfrif cynilo.

Er enghraifft, os yw'r eitem yn costio £3.60 codir £4 arnoch ac aiff 40c i gyfrif cynilo. Os yw eich banc yn cynnig y cynllun hwn gallwch ei sefydlu ar-lein.

## Amlenni

Defnyddiwch fanc neu app sy'n eich galluogi i neilltuo arian yn awtomatig i 'amlenni' neu 'botiau'. Fel hyn, bydd arian yn cael ei dynnu allan o'ch prif gyfrif yn awtomatig a'i roi mewn 'amlen' cynilion neu amlen ar gyfer eich biliau hanfodol. Bydd hyn yn eich galluogi i arbed arian heb sylwi bron. Enghraifft o app o'r fath yw Monzo ([www.monzo.com](http://www.monzo.com))

## Archeb Sefydlog

Gallech hefyd sefydlu eich cyfrifon cynilo eich hun a sefydlu archeb sefydlog i fynd allan y diwrnod y daw eich arian i mewn. Fel hynny, fyddwch chi ddim yn ei wario gyntaf!

## Cynilion undebau credyd

Dewis arall yn lle'r banciau a'r cymdeithasau adeiladu arferol ar y stryd fawr yw undebau credyd.

## Undeb credyd

Mae undeb credyd yn gweithio drwy ddefnyddio cynilion llawer o bobl (aelodau) i helpu i fenthg arian i bobl. Mae undeb credyd yn agos i chi. Maent yn cynnig nifer o wahanol bethau gan gynnwys cynilion syml, benthyciadau a chyfrifon cyfredol.

## Cynilion

Mae agor cyfrif cynilo wedi'i gynllunio i fod yn syml iawn. Gallwch gynilo cyn lleied neu gymaint ag y dymunwch bob wythnos neu fis.

Gallwch dynnu arian mor aml ag sydd angen ac unwaith y bydd gennych gyfrif gallwch ddod yn aelod o'r undeb credyd.

Y ffordd hawsaf o gynilo arian yw rhoi rhywfaint o'r neilltu cyn gynted ag y daw eich cyflog neu'ch budd-daliadau i mewn i'ch cyfrif. Fel hyn mae'n dileu'r demtasiwn i'w wario!

Mae rhoi arian o'r neilltu i gynilo ar gyfer y peth rydych chi wirioneddol eu heisiau yn rhoi boddhad mawr. Byddwch chi wir yn teimlo eich bod wedi haeddu'r eitem!



# BENTHYG ARIAN...

Bydd yr adran hon yn dweud wrthyhych am y gwahanol ffyrdd y gallwch fenthyg arian. Fodd bynnag, nid oes sicrwydd y byddwch yn gallu defnyddio rhywfaint neu'r cyfan o'r isod.

Cyn benthgy arian o unrhyw le, siaradwch â'ch cynghorydd personol a allai helpu i ddo o hyd i ateb gwahanol - fel grant.



## Pethau allweddol i'w cofio

P'un a ydych yn benthgy £10 neu £1,000 rydych wedi ymrwymo i fenthyciad. RHAID i chi gadw i fyny â'ch taliadau wythnosol/misol.



Os nad ydych yn gwneud y taliadau'n brydlon:

- bydd taliadau ychwanegol
- gall y cwmni fynd â chi i'r llys
- bydd yn effeithio ar eich siawns o fenthg arian yn y dyfodol

Meddylwch...

- **A oes angen yr hyn yr ydych am ei brynu neu ai dim ond rhywbeth yr ydych ei eisïau ydyw?**
- **Peidiwch â benthg arian ar gyfer rhywbeth rydych chi ei eisïau.**
- **Os yw'n rhywbeth sydd ei angen arnoch, siaradwch â'ch cynghorydd personol yn gyntaf.**

Ni waeth pa mor awyddus ydych chi i gael arian, PEIDIWCH â defnyddio benthyciwr stepen drws (benthyciwr arian didrwydded). Maent yn fenthycwyr anghyfreithlon a byddant yn defnyddio aflonyddwch i gael arian yn ôl ac efallai y byddant yn parhau i ddweud eich bod mewn dyled ar ôl i chi dalu'r arian yn ôl.

### **Gorddrafft banc**

Rhwyd achub tymor byr yn eich cyfrif cyfredol yw hwn i fod. Mae'n bosib y byddwch yn cytuno ar hyn gyda'ch banc ymlaen llaw. Gallwch naill ai gael gorddrafft y cytunwyd arno neu orddrafft nas cytunwyd arno.

- **Gorddrafft y cytunwyd arno - rydych wedi cytuno ar swm penodol y gallwch ei ordynnu**
- **Gorddrafft nas cytunwyd arno - nid oes cytundeb â'r banc felly efallai y codir llawer arnoch bob diwrnod o'r gorddrafft**

Pa fath bynnag o orddrafft sydd gennych, mae'n debygol o gynnwys ffioedd dyddiol. Mae'r rhain yn ffioedd costus a gallant gynyddu'n fuan. Gall banc ddewis tynnu'r gorddrafft yn ôl ar unrhyw adeg. Os ydych wedi benthg arian ac yn ei chael yn anodd gwneud y taliadau siaradwch â'r banc/undeb credyd cyn gynted â phosibl i weld pa opsiynau sydd ar gael.

Gallech hefyd siarad â'ch canolfan cyngor ar bopeth leol i gael cyngor.



[www.newport.gov.uk](http://www.newport.gov.uk)

## **Benthyciad banc**

Mae hwn yn gytundeb ffurfiol gyda'r banc pan fyddwch yn benthycia swm penodol o arian dros gyfnod amser a gytunwyd.

Bydd y banc yn nodi'n glir:

- **y taliadau misol**
- **y cyfanswm sydd i'w dalu (gan gynnwys llog)**
- **faint rydych chi wedi'i fenthycy**

## **Benthyciad undeb credyd**

Mae undeb credyd yn cynnig cynilion a benthyciadau i'w aelodau. Fel arfer, ni fyddwch yn gallu benthycy arian oni bai fod gennych gyfrif cynilo gyda nhw.

Mae cyfraddau llog fel arfer yn is na llawer o ddulliau eraill o fenthycia a gallwch fel arfer wneud taliadau bob wythnos neu bob mis.

## **Benthyciad Moneyline**

Mae hwn yn ddewis amgen i fenthyciadau diwrnod cyflog. Maent yn cynnig benthyciadau o hyd at £1,500 a gellir eu talu bob wythnos, bob pythefnos neu bob mis.

Maent yn ystyried a allwch fforddio ei dalu'n ôl yn hytrach nag edrych ar eich sgôr credyd. Am fwy o wybodaeth ewch i [www.moneyline-uk.com](http://www.moneyline-uk.com)

## **FFYRDD ERAILL O FENTHYG...**

Mae ffyrdd eraill y gallwch fenthycy arian pan fyddwch yn siopa. Efallai na fyddant yn hysbysebu eu hunain fel benthyciadau neu fenthycia ond dyma'r hyn ydynt.

Cofiwch:

- **Mae llog yn dâl y mae'r banc neu'r sefydliad yn ei godi ar ben yr hyn yr ydych chi wedi'i fenthycy a elwir fel arall yn gost benthycia.**
- **Gellir codi llog bob dydd, bob wythnos neu bob mis. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod pa un ydyw.**
- **Gall cyfraddau llog ddrysu rhywun yn lân. Y ffigur allweddol i'w ddefnyddio wrth gymharu cyfraddau yw'r Gyfradd Ganrannol Flynyddol (APR).**

## Cerdyn credyd

Os byddwch yn gwneud cais am gerdyn credyd, mae'n rhoi'r dewis i chi brynu pethau nawr a thalu amdanynt yn nes ymlaen.

Cewch ddatganiad bob mis yn dangos faint yr ydych wedi'i wario ac felly faint sydd arnoch. Pan dderbyniwch y gyfriflen mae tri opsiwn o ran ad-dalu:

- 1. Ad-dalu'r swm cyfan ar ddiwedd pob mis (ni chodir llog) – dyma'r opsiwn gorau.**
- 2. Talu'r isafswm misol sy'n ddyledus. Bydd hyn yn gadael balans sylweddol a chodir llog arnoch ar y balans.**
- 3. Talu swm rywle rhwng yr isafswm gofynnol a'r cyfanswm sy'n ddyledus. Bydd hyn yn gadael balans y codir llog arno. Er enghraifft, os ydych yn gwario £200 yn ystod y mis a thalu £50, codir llog ar y £150 sy'n weddill, sef y balans.**

## Oeddech chi'n gwybod?

Os nad ydych yn hoffi siarad â phobl ar y ffôn neu wyneb yn wyneb gallwch gael cyngor ar ddyledion drwy WhatsApp. Cysylltwch â'r gwasanaeth cyngori ariannol drwy WhatsApp ar **07701 342744**.

## Rhentu i fod yn berchen arno

Mae rhai siopau ar y stryd fawr yn cynnig cynlluniau talu wythnosol ar gyfer nwyddau. Mae'r rhain yn ymddangos yn ddeniadol gan eu bod yn cael eu hystyried yn daliadau wythnosol isel, fodd bynnag, mae angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o'r costau llawn o gymharu â mathau eraill o fenthyg.



## Cyllid

Ar gyfer rhai eitemau mwy fel peiriant golchi neu gwcer, gall rhai siopau gynnig dewisiadau 'cyllid'. Dull o dalu am yr eitem yn fisol yw hwn ond cofiwch:

- **codir llog arnoch am gyllid**
- **nid oes sicrwydd y cewch eich derbyn ar gyfer y benthyciad**
- **gwnewch yn siŵr eich bod yn deall costau llawn y math hwn o fenthyca**

## Prynu nawr, talu'n ddiweddarach

Mae llawer o siopau'r stryd fawr bellach yn cynnig y dewis o brynu eitemau nawr a thalu amdanynt o fewn amserlen benodol, er enghraifft o fewn 30 diwrnod neu mewn tri rhandaliad ar wahân.

Mae'r rhain fel arfer yn ddi-log ond rydych yn dal i fenthyca arian ac mae angen i chi feddwl a allwch chi fforddio'r eitemau ai peidio.

Bydd peidio â gwneud y taliadau'n brydlon yn arwain at ffioedd ychwanegol a bydd hynny'n effeithio ar eich statws credyd.

Gofynnwch i'ch cynghorydd personol a allwch gael grant ar gyfer nwyddau gwyn fel oergell a pheiriant golchi.

Os yw materion ariannol yn effeithio ar eich iechyd meddwl gallwch ofyn am gymorth a chyngor ar [www.platfform.org](http://www.platfform.org)

## PETHAU ERAILL I FEDDWL AMDANYNT...

Dyma rai pethau eraill i feddwl amdanynt ac osgoi wrth chwilio am fwy o arian.

### Cynlluniau 'arian hawdd'

Byddwch yn ymwybodol o sgamiau lle gofynnir i chi gadw arian yn eich cyfrif ar gyfer rhywun arall. Gellir hysbysebu hyn fel swydd ar gyfryngau cymdeithasol gyda theitlau megis- 'asiantau trosglwyddo arian', 'proseswyr lleol' neu gellir ei hysbysebu fel benthyciad 'hawdd'.

Pan ddaw'r arian i mewn i'ch cyfrif gofynnir i chi drosglwyddo arian i berson arall ond caniateir i chi gadw swm bach drosoch eich hun. Mae hyn yn ffordd i droseddwy'r 'lanhau' arian sy'n deillio o weithgarwch troseddol a byddwch chi yn dod yn ful arian ac yn cyflawni gweithred droseddol a allai arwain at gyfnod yn y carchar yn ogystal â methu gallu cael cyfrif banc neu fenthyg arian yn y dyfodol.

## **Benthycwyr arian didrwydded**

Gallai benthycwr arian didrwydded fod yn rhywun rydych chi'n ei adnabod o'r gymdogaeth. Gall hyd yn oed fod yn 'ffrind'. Byddant yn treulio amser yn meithrin eich ymddiriedaeth cyn benthycu arian i chi ond ni fyddant yn rhoi unrhyw waith papur i chi ac efallai y byddant yn gofyn am rywbeth fel eich pasbort fel 'diogelwch'.

Efallai y byddant yn defnyddio trais i gael arian yn ôl.

I gael cyngor ar osgoi benthycwyr arian didrwydded ewch i:

[www.moneyadvice.service.org.uk/loans](http://www.moneyadvice.service.org.uk/loans)

## **Benthycu arian i ffrindiau/teulu**

Er y gallech fod yn awyddus i helpu eich teulu, meddyliwch a allwch fforddio benthycu arian iddynt. A fyddant yn eich talu'n ôl neu'n eich cadw yn aros?

Mae gennych ddewisiadau pan fydd angen arian arnoch, felly hefyd eich teulu/ffrindiau, felly ni ddylai fod angen iddynt ddod atoch. Siaradwch â'ch cynghorydd personol ar unwaith er mwyn iddyn nhw allu eich helpu.

## **Help gyda dyled**

Os ydych yn ei chael hi'n anodd iawn dod o hyd i unrhyw arian i dalu am bethau, gan gynnwys bwyd, mae cymorth ar gael.

## **Dyled**

Os ydych yn ei chael hi'n anodd ymdopi â dyled a'ch bod ar ei hôl hi o ran eich taliadau, siaradwch â'ch Swyddog Cymorth Tenantiaeth (os oes gennych un) neu eich cynghorydd personol.



[www.newport.gov.uk](http://www.newport.gov.uk)

Am fwy o wybodaeth ewch i [www.stepchange.org](http://www.stepchange.org) neu [www.turn2us.org.uk](http://www.turn2us.org.uk)

### **Gamblo**

Ydych chi'n gwario mwy nag yr ydych am ei wneud ar gamblo, yn ei chael yn anodd dod o hyd i'r arian ar gyfer biliau neu'n benthyg arian i dalu am ddyledion hapchwarae?

Am help a chefnogaeth ewch i [www.gamcare.org.uk](http://www.gamcare.org.uk)

### **Bwyd**

Os nad oes arian gennych, hyd yn oed i brynu bwyd efallai y gallwch gael parcel bwyd brys o fanc bwyd lleol. Rhaid i chi gael taleb gan y gwasanaethau cymdeithasol, y ganolfan cyngor ar bopeth neu asiantaeth arall a byddwch yn cael bwyd i bara tri diwrnod.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â'ch banc bwyd lleol neu siaradwch â'ch cynghorydd personol.

### **Cymorth gyda dyledion tanwydd**

Os ydych yn ei chael hi'n anodd iawn dod o hyd i unrhyw arian i dalu am bethau fel eich nwy/trydan gallwch gysylltu â'ch cyflenwr i drafod cynllun ad-dalu a/neu unrhyw opsiynau tariff rhatach sydd ar gael. Siaradwch â'ch cyflenwr tanwydd ar unwaith os ydych chi'n cael trafferth talu'ch biliau. Po gyntaf y byddwch yn cysylltu â nhw, y mwyaf y gallant helpu.

Os ydych yn hawlio budd-daliadau penodol, efallai y gallwch drefnu i daliadau gael eu cymryd yn uniongyrchol o'ch budd-daliadau.

Os oes gennych broblemau ariannol difrifol a bod gennych ddyled fawr efallai y gallwch wneud cais i gronfa ymddiriedolaeth ynni neu ymddiriedolaeth elusenol.

### **Cronfa cymorth cwsmeriaid**

Cynllun a gynigir gan Dŵr Cymru yw hwn os ydych yn ei chael yn anodd talu eich bil dŵr.

Bydd hyn yn gwneud taliadau'n haws eu trin ac yn rhoi rhandaliadau realistig llai i chi eu talu.

Os byddwch yn gwneud y taliadau'n brydlon am 6 mis, bydd eich dyled yn cael ei haneru. Os byddwch yn gwneud y taliadau'n brydlon am 6 mis arall, bydd eich dyled yn cael ei chlirio.

### **Cronfa cymorth dewisol**

Os ydych wedi profi argyfwng neu os ydych yn wynebu problemau ariannol difrifol efallai y gallwch wneud cais i'r gronfa cymorth brys.

Gallai hyn eich helpu i dalu am filiau bwyd/ynni. Byddech yn cael £50 a gallwch wneud cais hyd at 3 gwaith mewn blwyddyn

I gael rhagor o wybodaeth ac i wneud cais drwy ffonio **0800 859 5924**.



[www.newport.gov.uk](http://www.newport.gov.uk)

## ARIAN – TERMAU ALLWEDDOL...

### **AER (Cyfradd Gyfatebol Flynyddol)**

Term a ddefnyddir i ddisgrifio'r gyfradd llog sy'n weithredol ar unrhyw gynilion sydd gennych. Dangosir fel canran.

### **Ad-daliadau**

Y swm bob wythnos neu fis y mae'n rhaid i chi ei ad-dalu pan fyddwch wedi benthyca arian.

### **APR (Cyfradd Ganrannol Flynyddol)**

Term a ddefnyddir i ddisgrifio'r gyfradd llog a chostau eraill sy'n berthnasol i daliadau a benthyciadau cardiau credyd. Dangosir fel canran.

### **Arbedion rheolaidd**

Math o gyfrif cynilo lle rydych yn rhoi arian mewn cynilion bob mis.

### **ATM**

Yr enw mwy cyffredin arno yw peiriant codi arian parod, lle gallwch gael arian parod o'r banc. Gallwch ddefnyddio rhai am ddim ond bydd eraill yn codi tâl arnoch i'w defnyddio.

### **Balans**

Swm yr arian yn eich cyfrif neu sydd ar ôl i'w dalu ar fenthyciad/cerdyn credyd.

### **Banc**

Sefydliad sy'n cynnig nifer o wasanaethau sy'n gysylltiedig ag arian - gan gynnwys bancio o ddydd i ddydd, cynilion, benthyciadau a morgeisi.

### **Benthyciadau**

Arian yr ydych wedi'i fenthyg gan fanc, undeb credyd ac ati. Rhaid i chi ad-dalu hyn a chodir llog arnynt.

### **Bil**

Dogfen wedi'i hargraffu yn dweud faint sydd arnoch am wasanaeth.

### **Blaendal**

Cost ymlaen llaw efallai y bydd yn rhaid i chi ei thalu wrth ymgymryd â thenantiaeth, rhentu tŷ neu brynu eitem drwy rentu i brynu neu gytundeb credyd.

### **Blaenswm**

Arian a roddwyd i chi cyn y dylech fod wedi'i dderbyn.



Felly, byddwch yn cael llai ar y dyddiad cyflog gwirioneddol neu'n gorfod talu rhywfaint yn ôl dros gyfnod penodol o amser.

### **Budd-daliadau**

Arian y gallwch ei hawlio gan y Llywodraeth. Er enghraifft, os nad oes gennych swydd neu os oes gennych blant neu anabledd ac ati.

### **Budd-dal plant**

Arian a gewch gan y Llywodraeth i helpu gyda chost cael plentyn.

### **Cerdyn credyd**

Cerdyn y gallwch ei ddefnyddio i brynu eitemau ac yna talu amdanynt yn nes ymlaen. Codir llog oherwydd eich bod yn benthyg arian.

### **Cerdyn debyd**

Cerdyn sy'n gysylltiedig â'ch cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu y gellir ei ddefnyddio i dynnu arian o beiriant arian parod neu dalu am nwyddau/gwasanaethau. Dim ond os oes gennych ddigon yn eich cyfrif i'w dalu y gallwch dynnu arian allan.

### **Cerdyn rhagdaledig**

Cerdyn y gallwch ei ddefnyddio i brynu eitemau mewn siopau. Mae fel cerdyn debyd ond mae'n rhaid i chi lwytho arian ar y cerdyn ymlaen llaw cyn i chi siopa. Ni allwch wario mwy o arian na'r hyn sydd ar y cerdyn.

### **Contract**

Cytundeb cyfreithiol yr ydych yn ymrwymo iddo lle mae'n rhaid i chi dalu arian am nwyddau neu wasanaeth. Weithiau mae'n daliad untro, weithiau mae am gyfnod penodol o amser. Gall hwn hefyd fod yn gontract cyflogaeth sy'n nodi eich cyflog, gwyliau ac ati.

### **Costau**

Eich holl wariannau am yr wythnos neu'r mis - h.y. yr holl filiau y mae'n rhaid i chi eu talu.

### **Credyd Cynhwysol**

Budd-dal a gewch gan y Llywodraeth os nad oes gennych swydd neu os oes gennych incwm isel. Bydd y swm a gewch yn dibynnu ar faint rydych yn ei ennill, os oes gennych anabledd, os oes gennych unrhyw blant ac ati.



## **Cyfleustodau**

Term a ddefnyddir i ddisgrifio eich cyflenwadau dŵr, nwy a thrydan.

## **Cyflog byw cenedlaethol**

Term arall am yr isafswm cyflog.

## **Cyflog byw gwirioneddol**

Y swm y mae'r Sefydliad Cyflog Byw yn credu y dylai fod y gyfradd fesul awr a delir i bobl pan fydd ganddynt swydd. Nid yw'r swm hwn yn gyfraith ond mae rhai cwmnïau wedi dewis talu'r gyfradd hon i staff.

## **Cyfrif cyfredol**

Yr enw a roddir ar gyfrif banc sy'n gadael i chi dalu budd-daliadau/cyflog yn awtomatig a gwneud taliadau fel biliau drwy ddebyd uniongyrchol.

## **Cyfriflen**

Rhestr o'r holl daliadau i mewn ac allan am gyfnod penodol o amser (mis fel arfer). Un enghraifft yw cyfriflen banc.

## **Cyfrif sylfaenol**

Cyfrif banc syml heb unrhyw orddrafft.

## **Cyllideb**

Cynllun i benderfynu faint o arian sydd gennych yn dod i mewn ac yn mynd allan a fydd wedyn yn dweud wrthyfch faint sydd ar ôl gennych bob wythnos/mis.

## **Cymdeithas adeiladu**

Mae'r rhain fel arfer yn cynnig yr un gwasanaethau â banc ond mae'r sefydliad wedi'i sefydlu'n wahanol.

## **Cymhelliant**

Cynnig y mae cwmni'n ei wneud i'ch annog i brynu cynnyrch neu wasanaeth. Mae cynigion cyffredin yn cynnwys 'taleb Amazon am ddim pan fyddwch yn tanysgrifio', 'Y tri mis cyntaf am ddim', '20% oddi ar eich pryniant cyntaf'.

## **Cyngor ar Bopeth**

Lle sy'n cynnig cyngor ar lawer o bynciau gan gynnwys budd-daliadau lles, dyled, sgamiau, arbed ynni a llawer mwy.

## **Cynilion**

Arian rydych chi wedi'i roi o'r neilltu mewn cyfrif cynilo ar gyfer pethau yr hoffech eu prynu yn y dyfodol.

## **Cynilion mynediad hawdd**

Ffordd o gynilo cymaint neu cyn lleied ag y dymunwch a thynnu arian pryd bynnag y dymunwch.

## **Debydau uniongyrchol**

Ffordd o dalu eich biliau. Bydd y swm yn dod allan o'ch cyfrif yn awtomatig.

## **Di-gyswllt**

Ffordd o dalu lle rydych chi'n gosod y cerdyn debyd/credyd yn erbyn y peiriant cardiau mewn siop yn hytrach na rhoi eich PIN. Gallwch wneud hyn am daliadau hyd at £45.

## **Di-waith**

Pan nad oes gennych swydd.

## **Dyled**

Dyma arian sydd arnoch i fanc neu gwmni.

## **Elfen cost tai**

Arian y gallwch wneud cais amdano drwy greidd cynhwysol y mae'n rhaid i chi ei dalu tuag at eich rhent. Arferai hyn gael ei alw'n fudd-dal tai.

## **Gorddrafft**

Rhwyd ddiogelwch fach y gall banc ei rhoi i chi rhag ofn i chi fynd yn brin o arian. Math o arian benthylg yw hwn. Mae banc yn debygol o godi tâl arnoch i ddefnyddio eich gorddrafft.

## **Gorddrafft awdurdodedig**

Mae gorddrafft yn fath o fenthylg arian yr ydych wedi'i drefnu ymlaen llaw gyda'ch banc. Efallai y bydd rhai banciau'n cynnig hyn am ddim ond bydd rhai yn codi tâl arnoch am ei ddefnyddio. Bydd angen i chi holi nhw.

## **Gorddrafft heb awdurdod**

Dyma pryd y byddwch yn gwario mwy na'r hyn sydd gennych yn eich cyfrif heb drefnu gorddrafft ymlaen llaw. Codir tâl am hyn a gall gynyddu'n gyflym.

## **Grant**

Arian y gallwch wneud cais amdano ac nad oes rhaid i chi ei ad-dalu. Pan fyddwch yn gwneud cais bydd y sefydliad sy'n rhoi'r grant (y cyllidwr) i chi fel arfer yn dweud wrthyhych beth y gallwch wario'r arian arno (efallai y bydd yn rhaid i chi brofi hyn).



## **Gwasanaeth**

Cwmni neu berson sy'n cwblhau gweithred/gweithgaredd i chi fel triniwr gwallt neu blymwr.

## **Hysbysiad o arbedion**

Ffordd o gynilo lle mae'n rhaid i chi ddweud wrth eich banc eich bod am dynnu arian o'ch cyfrif ac aros am nifer benodol o ddyddiau cyn ei gael.

## **Incwm**

Yr holl arian sydd gennych yn dod i mewn. Gallai hyn fod o gyflogaeth, budd-daliadau neu grantiau.

## **ISA i Bobl Iau**

Math o gyfrif cynilo. Os ydych wedi bod yn derbyn gofal ers dros 12 mis bydd yr awdurdod lleol wedi sefydlu ISA i Bobl Iau ar eich rhan. Gallwch fanteisio ar hyn pan fyddwch yn troi'n 18 oed.

## **Isafswm cyflog**

Yr isafswm yr awr y mae'n rhaid i gwmni ei dalu i'w gyflogeion. Y gyfraith ydyw ac nid yw'n ddewisol. Y swm o fis Ebrill 2020 yw £6.45 yr awr i bobl 18-20 oed, £8.20 i bobl 21 i 24 oed ac £8.72 i'r rhai 25 oed a hŷn.

## **Lwfans treth personol**

Y swm y gallwch ei ennill o swydd cyn i chi ddechrau talu treth incwm. Gallwch ennill £12,500 y flwyddyn heb dalu treth ar hyn o bryd (2020/21).

## **Llog**

Cost benthgy arian sy'n cael ei ychwanegu at y swm sydd arnoch. Dyma'r wobr hefyd am gynilo arian ac fe'i hychwanegir at eich cynilion, fel arfer unwaith y mis neu unwaith y flwyddyn.

## **Manwerthwr talu wythnosol**

Cwmni sy'n cynnig eitemau i chi - eitemau trydanol fel arfer - am dâl wythnosol. Math o fenthgy yw hwn ac fel arfer mae'n ddrudd iawn o'i gymharu â chael benthyciad o rywle arall.

## **Mastercard**

Math o gerdyn credyd a debyd.

## **Mewn cyflogaeth**

Cael swydd â thâl. Os oes gennych swydd â thâl, rydych yn cael eich 'cyflogi'.

## **Nwyddau**

Eitemau corfforol rydych chi'n eu prynu fel teganau, esgidiau, bwyd ac ati.

## **Ôl - ddyledion**

Swm nad ydych wedi'i dalu ar eich rhent neu eich biliau. Os oes arnoch ddyled o'r arian hwn, rydych 'mewn ôl-ddyledion'

## **PIN**

Rhif pedwar digid a roddir i chi er mwyn defnyddio eich cerdyn debyd neu gredyd. Mae angen hyn arnoch wrth godi arian a thalu am bethau mewn siopau. Ni ddylech rannu'r rhif hwn gyda neb.

## **Prynu nawr, talu'n hwyrach**

Math o fenthyciad a gynigir mewn siopau ar y stryd fawr lle rydych yn prynu eitem nawr ac yn talu amdano mewn rhandaliadau. Gallai hyn fod dros ychydig o fisoedd NEU mae gennych yr opsiwn i'w dalu ymhen 30 diwrnod. Os na fyddwch yn talu'r swm sy'n ddyledus bydd yn effeithio ar eich statws credyd.

## **Rhent**

Y swm y mae'n rhaid i chi ei dalu bob wythnos neu fis i fyw yn eich cartref. Mae'n rhaid i chi dalu'r swm hwn neu mae perygl i chi gael eich troi allan o'ch cartref.

## **Sglodyn a PIN**

Defnyddio eich cerdyn fel dull talu lle byddwch yn rhoi eich cerdyn mewn peiriant cerdyn a rhoi eich rhif PIN.

## **Sgôr credyd**

Dull a ddefnyddir gan gwmnïau benthyciadau i benderfynu'r risg o fenthg arian i chi. Mae hyn yn seiliedig ar faint o ddyled sydd gennych ac a ydych yn cadw i fyny â thaliadau. Os ydych yn benthg arian yn gyson neu os na fyddwch yn gwneud taliadau'n brydlon bydd yn effeithio ar eich sgôr credyd a'ch gallu i gael benthyciadau yn y dyfodol.

## **Siarc benthyciad**

Unigolyn sy'n benthg arian i chi (yn anghyfreithlon), yn codi llog gormodol ac yn defnyddio bygythiadau i gael mwy o arian gennych.

## **Treial am ddim**

Cewch wasanaeth am ddim am gyfnod penodol o amser.



[www.newport.gov.uk](http://www.newport.gov.uk)

Ar ddiwedd y cyfnod prawf hwn cewch eich tanysgrifio'n awtomatig oni bai eich bod yn gofyn am ddad-danysgrifio. Pan fyddwch yn cael eich tanysgrifio'n awtomatig, cymerir taliad a allai fod am fis neu flwyddyn gyfan yn dibynnu ar y gwasanaeth.

### **Treth incwm**

Mae hon yn dreth y mae'n rhaid i chi ei thalu pan fyddwch yn ennill dros swm penodol wrth weithio. Bydd treth yn dechrau cael ei chymryd yn awtomatig o'ch cyflog pan fyddwch yn ennill dros £12,500 y flwyddyn (cywir ym mis Awst 2020).

### **Trwydded Deledu**

Ffi y mae'n rhaid ei thalu os ydych yn byw'n annibynnol ac yn gwyllo unrhyw deledu neu ffrwd fyw drwy BBC iPlayer.

### **Undeb credyd**

Sefydliad lleol sy'n cynnig cynilion a benthyciadau bach i'w aelodau.

### **Visa**

Math o gerdyn debyd neu gredyd

### **Y dreth gyngor**

Treth y mae angen i bobl eu thalu tuag at wasanaethau cyhoeddus fel casgliadau sbwriel, llyfrgelloedd, gwasanaethau ieuencid, iechyd yr amgylchedd, yr heddlu a'r gwasanaethau brys. Nid oes rhaid i bobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal dalu'r dreth hon pan fyddant yn byw ar eu pen eu hunain.

### **Yswiriant Gwladol (YG)**

Treth rydych chi'n ei thalu pan fyddwch chi mewn swydd. Mae'r swm yn cael ei dynnu oddi ar eich cyflog yn awtomatig pan fyddwch yn ennill swm penodol. Mae'r dreth yn mynd tuag at fudd-daliadau'r wladwriaeth.

